

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Nia Heledd Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

6/2/2018

**Presennol:** Heledd Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol),

**1817** Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Ian Trow a Lis Puw. Diolchwyd i Huw Antur am gofnodi'r cyfarfod.

**1818 Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**1819 Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant gan Huw Antur ym mater 1830.5 – Llwybr Tegid.

**1820 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 2/1/18.

#### **1821 Materion y Clerc :**

- i. Cofnodion Ionawr, rhif 1814 - Derbyniwyd llythyr gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd fod problem y dŵr yn cronni ar ffordd Pennantlliw bach yn derbyn sylw. Nodwyd fod peth gwaith sgubo wedi ei wneud ar bafin a stryd y pentref ond bod yr ardal rhwng y ciosg a'r llan angen sylw hefyd. Gan fod Adran y Priffyrdd yn dweud nad hwy sy'n gyfrifol ar yr ardal lle mae'r bws yn troi'n ôl, mae angen gwneud ymholiadau pellach.
- ii. Nodwyd gwybodaeth ddiweddar ym mater trosglwyddo Mynwent yr Eglwys.
- iii. Ni chafwyd ymateb i'r ymholiad am y Ddeddf "Active Travel" ond fe fydd y Clerc yn parhau i bwysu am ateb.
- iv. Rhoddwyd ystyriaeth i oblygiadau deddf Gwarchod Data a ddaw i rym ar 25/5/18, a chytunwyd i'w drafod eto pan ddaw arweiniad clir o Un Llais Cymru.

**1822 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir, Alan Jones Evans. Awgrymodd y dylai'r Cyngor gofrestru gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer llenwi'r biniau halen i dderbyn y gwasanaeth ar gost o £45 y tro. Cytunwyd i'r egwyddor o gofrestru a chytunwyd i ail-agor y drafodaeth gyda Phartneriaeth Penllyn. Adroddodd y Cynghorydd fod cynlluniau i adnewyddu'r ffordd rhwng Pandy Mawr a Chefn Gwyn.

**1823 Y Noson Goffi:** Cadarnhawyd y trefniadau.

#### **1824 Materion Eiddo'r Cyngor:**

- i. Derbyniwyd adroddiad Karl Jones: mae arwyddion cywir am y di-ffib yn awr wedi eu gosod wrth eiddo'r Cyngor (llochesi bws a'r gofeb).
- ii. Prosiect Byrddau Gwybodaeth - mae'r cais am grant wedi ei gyflwyno ac mae trefniadau mewn llaw i wneud clip fideo i gefnogi'r cais.
- iii. Cytunodd Karl Jones, Alwyn Roberts, Alwyn E Jones ac Arwel Lloyd Jones i ffurfio is-bwyllgor adnewyddu'r toiledau.
- iv. Nodwyd derbyn neges am ail-baentio'r meinciau.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Nia Heledd Jones

---

**1825 Y Fynwent:** Cytunwyd i ohirio clirio'r fynwent tan fis Mawrth oherwydd y tywydd, ac i ohirio trafodaeth ar hysbysfwrdd ychwanegol a materion eraill tan hynny. Yn y cyfamser fe fydd Swyddog y Fynwent yn trafod ardal claddu llwch gyda'r Ymgymrwyr yn Y Bala.

**1826 Materion ariannol:** Cadarnhawyd cynnwys e-bost y Swyddog Ariannol Cyfrifol am daliadau'r mis a chymeradwywyd taliadau eraill i'w gwneud.

Cytunwyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i hawlio'r grant am y gwaith a wnaed ar Lwybr y Cei ac i drafod cam 2 o'r cynllun. Trafodir gosod mainc yn y gwagle yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**1827 Materion lleol:** Mynegwyd anfonlonrwydd gyda'r toriadau yn y cyflenwad trydan ar 23/1/18, a oedd wedi achosi anghyfleustra mawr, yn arbennig i'r rhai sy'n gweithio o adref. Cytunwyd i ofyn i SP am eglurhad o'r toriadau ac am rybudd digonol i'r defnyddwyr i gyd os cyfyd sefyllfa debyg.

Cytunwyd i anfon at Mari Jones Williams i ddiolch iddi am ei gwaith gyda'r *Cyfnod* yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac i anfon dymuniadau gorau at Sian Butler wrth iddi hi ymgymryd â'r busnes.

**1828 Partneriaeth Penllyn:** Bydd y cyfarfod nesaf ar 19/2/18.

**1829 Materion Cynllunio:** Dim

**1830 Gohebiaeth:**

- 1. Parc Cenedlaethol Eryri:** Derbyniwyd gwybodaeth am Gynllun Datblygu Lleol 2016-2031.
- 2. Gwynedd:**
  - i. Nodwyd derbyn y Cynllun Llesiant (drafft).
  - ii. Cytunwyd i fynegi diddordeb yn y cynllun i gael offer Technoleg Gwybodaeth mewn Canolfan Cymunedol os gellir ei glymu gyda'r ysgol leol.
- 3. Un Llais Cymru:** Cytunodd Dewi Jones, Beryl Hughes Griffiths a Huw Antur i roi sylw manwl i'r Model Polisi iaith.
- 4. Llywodraeth:**
  - i. Cymeradwywyd i'r Clerc fynychu panel yng Nghaernarfon 6/3/18 i drafod cyfeiriad cynghorau cymuned a thref.
  - ii. Roedd bodlonrwydd i gynigion drafft ar gyfer ffiniau etholaethol i Gyngor Gwynedd gan fod Penllyn yn parhau gyda 3 Chynghorydd i Gyngor Gwynedd.
- 5. Urdd Gobaith Cymru:** dewiswyd Alwyn E Jones fel cynrychiolydd y Cyngor ar Grŵp Llwybr Tegid.

*Cadarnhau dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 6/3/18 yn y Neuadd Bentref.*